department for
culture, media
and sport

Newyddion cynaliadwy annibynnol a diduedd; yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau

Mehefin 2009

improving
the quality
of life for all

Ein hamcan yw gwella ansawdd bywyd pawb trwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r ras am ragoriaeth, a hyrwyddo’r diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Adran1: Sicrhau ffynonellau lluosog o newyddion yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau 5

Adran 2: Opsiynau cyllido – elfen neilltuedig o'r Drwydded Deledu 9

Adran 3: Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac egwyddorion yr ymgynghoriad 12

Atodiad A: Rhestr o gwestiynau ymgynghori 14

Cyflwyniad

1. Mae Papur Gwyn Prydain Ddigidol yn cadarnhau barn y Llywodraeth bod argaeledd helaeth cynnwys ansawdd uchel a gynhyrchwyd ym Mhrydain ar draws amrywiaeth o feysydd - o newyddion a materion cyfoes i raglenni plant a drama - yn hanfodol i fywyd diwylliannol, cymdeithasol a democrataidd y Deyrnas Unedig. Ac mae hanes hir o ymyrraeth gyhoeddus i ariannu a diogelu cynnwys o'r fath.

2. Yn y blynyddoedd diwethaf mae darpariaeth gan y farchnad wedi ehangu ar draws amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol, yn cynnwys adloniant ysgafn, celfyddydau perfformio, gwyddoniaeth, hanes naturiol a rhaglenni dogfen hanesyddol, a newyddion ar lefel Brydeinig a rhyngwladol. Rhaid croesawu'r datblygiadau hyn. Fodd bynnag, mae mathau penodol o gynnwys sydd â gwerth cymdeithasol arwyddocaol ond sy'n gynyddol aneconomaidd i'r farchnad eu darparu heb gymorth. Felly mae risg cynyddol y bydd cynnwys o'r fath ar gael gan y BBC yn unig mewn nifer o lefydd yn y dyfodol.

3. Argymhellodd Bapur Gwyn Prydain Ddigidol ail-fantoli'r ymyrraeth gyhoeddus i roi gwell adlewyrchiad o realaeth newidiol y farchnad. Mae'r Llywodraeth yn gweld rôl barhaus i'r BBC yng nghanol y fframwaith ail-fantoledig hon, gan ganiatáu iddo esblygu fel partner cynnwys gwasanaeth cyhoeddus a galluogwr Prydain Ddigidol; darparu cylch gorchwyl wedi ei foderneiddio a'i ail-gastio ar gyfer Channel 4 sy'n mantoli ei gylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus ynghyd ag un y BBC; a rolau newydd ar gyfer sefydliadau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus eraill a'r gobaith o fwy o arloesi a darpariaeth cynnwys gan y farchnad fasnachol hefyd.

4. Rydym eto i daclo'r cwestiwn p'un a fydd y fframwaith ail-fantoledig hwn yn ddigon ynddo'i hun neu a oes achos dros ymyrraeth gyhoeddus bellach. Dengys tystiolaeth bod awydd y cyhoedd i gael cynnydd arwyddocaol yng nghyfanswm yr arian cyhoeddus ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gwreiddiol yn gyfyngedig.

5. Mae angen gwahaniaethu rhwng ble fo lluosogrwydd yn ddymunol a ble'i fod fwyaf hanfodol. Y flaenoriaeth i'r Llywodraeth yw canolbwyntio ar beth sy'n hanfodol, ac i'r mwyafrif newyddion yw hyn. Ar gyfer grŵp llai, ond arwyddocaol, mae darpariaeth luosog o gynnwys gwreiddiol Prydeinig ar gyfer plant, yn arbennig plant hŷn nad ydynt yn derbyn gwasanaeth llawn gan y farchnad, hefyd yn bwysig.

Adran1: Sicrhau ffynonellau lluosog o newyddion yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau

6. Dengys astudiaethau ac ymchwil bod newyddion yn flaenoriaeth i gynulleidfaoedd ar bob lefel ac mai dyma'r cynnwys gwasanaeth cyhoeddus pwysicaf i gymdeithas. Mae newyddion yn parhau i fod yn rhan ganolog o ddemocratiaeth sy'n helpu cadw sefydliadau cyhoeddus yn atebol, yn ein hysbysu i gyd ac yn rhoi llais penodol i'r Cenhedloedd yn y Deyrnas Unedig ac i ranbarthau ledled y wlad. Mae cael lluosogrwydd o ran newyddion yn caniatáu ar gyfer gwahanol safbwyntiau, yn darparu dewis i'r cyhoedd ac yn symbylu diwydiant newyddion amrywiol a bywiog.

7. Creda'r Llywodraeth mai'r lluosogrwydd hwn o newyddion, y detholiad o leisiau sy'n olygyddol annibynnol, sy'n bwysig. Mae'n hanfodol fod gan gynulleidfaoedd ddewis o ffynonellau newyddion dibynadwy, annibynnol a diduedd o, ac ynghylch â'r, Cenhedloedd (h.y. Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban), yn lleol ac yn rhanbarthau Lloegr.

Y farchnad bresennol

8. Ar lefel cenedlaethol a rhyngwladol, mae ffynonellau lluosog a chystadlu ymysg darlledwyr sy'n darparu newyddion diduedd (megis ITN, Sky a'r BBC er enghraifft), darparwyr print (y wasg genedlaethol a chyfnodolion) a ffynonellau ar-lein cynyddol sydd oll yn denu cynulleidfaoedd arwyddocaol ledled y Deyrnas Unedig. Hyd yn oed ble nad yw'r achos masnachol yn un cryf, fel sy'n wir gyda darlledu newyddion, darperir newyddion y Deyrnas Unedig a rhyngwladol am y credir ei fod yn ychwanegu gwerth i'w brand neu gynnig i'r cwsmer.

9. Mae pwysigrwydd newyddion yn ymestyn yr holl ffordd i'r lefel leol ac mae'r un mor hanfodol cael ffynonellau lluosog o ddarparwyr newyddion a lleisiau golygyddol yn canolbwyntio ar faterion lleol a democratiaeth a phenderfyniadau rhanbarthol sy'n effeithio ar fywydau pob dydd pobl. Mae hyn yn arbennig o wir yn y cenhedloedd datganoledig ble mae'n bosibl nad yw'r wasg genedlaethol yn rhoi digon o sylw i sefydliadau datganoledig democrataidd. Mae pobl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn disgwyl clywed newyddion ar sut mae eu sefydliadau cyhoeddus yn bodloni disgwyliadau'r bobl yn eu cenedl unigol. Mae ymchwil wedi profi fod hyn yn wir ym mhob un o'r Cenhedloedd; felly hefyd yn y rhanbarthau Saesnig, mae cynulleidfaoedd eisiau mynediad at ddewis o newyddion sy'n eu hysbysu o'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal a sut mae'n effeithio arnynt, sut mae eu sefydliadau lleol - ysbytai, ysgolion, heddlu a chynghorau - yn perfformio. Dangosodd ymchwil a gyflawnwyd gan Ofcom, y rheolydd cyfathrebu annibynnol, bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi lluosogrwydd darpariaeth newyddion yn arbennig: roedd

86% o'r gynulleidfa yn credu mai newyddion oedd y maes ble roedd lluosogrwydd bwysicaf, a 76% yn credu bod hyn yn bwysig ar gyfer newyddion cenedlaethol a rhanbarthol[1].

10. Mae'r farchnad yn parhau i gynnig cynnwys gwreiddiol ac arloesol i raddau amrywiol, ac mae nifer o wefannau yn cynnig newyddion lleol a gwybodaeth gymunedol. Ond nid oes sicrwydd o ffynonellau newyddion diduedd a chywir yn y farchnadle ac mae tystiolaeth gynyddol bod newidiadau o ganlyniad i ymrannu o fewn cynulleidfaoedd a newid mewn incwm masnachol yn cael effaith ar newyddion a ddarperir yn fasnachol yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau. Ar yr un pryd, mae rhai o'r rhagolygon yn awgrymu y gallai marchnad hysbysebu'r wasg grebachu o rhwng £700 miliwn ac £1.6 biliwn erbyn 2019 gyda'r wasg ranbarthol wedi ei effeithio fwyaf.[2] Mae darlledwyr newyddion yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau hefyd yn wynebu pwysau sylweddol, fel y mae newyddion lleol ar radio masnachol. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu lleihad y gwarged hysbysebu all-lein traddodiadol oedd yn ariannu adrodd o'r llysoedd, newyddiaduraeth ymchwiliol, sylw ystyrlon a diduedd o sefydliadau datganoledig a llawer mwy sy'n rhan o wneuthuriad ein democratiaeth yn ei ystyr ehangaf. Mae swmp y dystiolaeth yma wedi ei archwilio yn yr arolygon darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gyflawnodd Ofcom dan y ddyletswydd statudol a ymddiriedwyd iddynt gan y Senedd (adran 264 y Ddeddf Cyfathrebu 2003) i ystyried sut i gynnal a chryfhau darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae cwmpas yr arolwg statudol hwn wedi ei gyfyngu i deledu, ond rydym wedi cydnabod ym Mhapur Gwyn Prydain Ddigidol y gall fod angen newid hyn i ganiatáu ar gyfer arolwg o ddarpariaeth ehangach cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

11. Golyga'r pwysau hyn ar draws y farchnad bod darpariaeth newyddion yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau yn prinhau neu mewn perygl o leihau'n sylweddol. Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried y byddai hyn o fudd i'r cyhoedd ac felly, gan fod detholiad o ddarparwyr ar gyfer newyddion ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, mae'n cynnig y dylid hefyd darparu newyddion yn y Cenhedloedd, yn lleol ac ar lefel ranbarthol yn yr un modd.

Cwestiynau ymgynghori:

Ydych chi'n cytuno y dylai sicrhau ffynonellau lluosog o newyddion diduedd ar gyfer y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau fod yn flaenoriaeth allweddol?

Cynnig y Llywodraeth: Consortia Newyddion gyda Chyllid Annibynnol

[1] Ail Arolwg PSB Ofcom, cam 1, ffigwr 10 "agwedd y cyhoedd tuag at luosogrwydd", t. 34

[2] Rhagolwg yr Advertising Association, T.6, *From riches to rags: prospect for local newspapers,* PriceWaterhouseCoopers, 2009

12. Ym Mhapur Gwyn Prydain Ddigidol, argymhellodd y Llywodraeth gyflwyno consortia newyddion gyda chyllid annibynnol. Byddai'r rhain yn cynnwys sefydliadau megis (ond heb eu cyfyngu i):

- ⇨ ddarlledwyr rhanbarthol a lleol;
- ⇨ darparwyr cynnwys newyddion ar-lein;
- ⇨ croniadau newyddion;
- ⇨ papurau lleol, gorsafoedd radio;
- ⇨ dod â buddsoddwyr ynghyd i greu cynnig newyddion uchelgeisiol a thraws gyfryngol.

Byddai'r Consortia yn darparu newyddion rhanbarthol fyddai'n cael ei ddarlledu a syndiceiddio'n fwy eang o fewn yr amgylchedd newyddion rhanbarthol a lleol. Tra bydd newyddion rhanbarthol aml-lwyfan yn nodwedd allweddol, mae'r Llywodraeth yn rhagweld y byddai'n synhwyrol, o leiaf yn y tymor canolig, i gymryd mantais o'r cyfle yn amserlen trwydded Channel 3 ar gyfer newyddion ym mhob Cenedl, yn lleol a rhanbarthol i adeiladu ar gyrhaeddiad ac ystod mynediad presennol i gynulleidfaoedd.

13. Byddai cytundebau'n cael eu dyrannu i'r Consortia yn dilyn cystadlu yn erbyn cyfres o feini prawf, yn cynnwys: y gallu i gyflawni cyrhaeddiad ac effaith; safonau cynhyrchu a golygyddol uchel i gynnal cywirdeb ac amhleidioldeb; a'r stamina ariannol i gynnal gwasanaeth o ansawdd trwy gydol cyfnod y cytundeb. Gallai meini prawf ar gyfer deilliannau dymunol gynnwys y gallu i godi'r gyfran o weithgaredd a roddir i newyddiaduraeth; ymroddiad i wahanolrwydd a newyddiaduraeth wreiddiol/ymchwiliol; ymroddiad i hyfforddiant amlgyfrwng a pharodrwydd i fod yn rhan o drefniadau ar gyfer syndiceiddio straeon newyddion i sefydliadau newyddion eraill, p'un ai'n genedlaethol, rhanbarthol neu leol.

14. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal prawf ar gyfer y cynnig hwn yn gyntaf fel peilot yng Nghymru, yr Alban a rhanbarth o Loegr. Yn ystod y cyfnod peilot hwn, bydd y Llywodraeth yn arolygu effeithiolrwydd y Consortia ac yn profi'r defnydd o gyllid cyhoeddus a chwmpas cyfleoedd refeniw masnachol.

15. Rydym yn disgwyl i'r Consortia weithredu'n fasnachol. Ond mae'r cysyniad yn cydnabod realiti'r farchnad bod posibilrwydd na fydd cyllid masnachol yn gallu cefnogi holl gostau newyddion annibynnol cynaliadwy yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau; nac ychwaith ddarpariaeth fasnachol gyda mynediad cyfanwerthol i gyfleusterau newyddion y BBC yn adeiladu ar y cynigion partneriaethau croeso mae'r Gorfforaeth wedi datblygu. Amcan allweddol y cynlluniau peilot fydd i brofi'r lefel o gyllid cyhoeddus "ychwanegol" fydd angen i sicrhau darpariaeth newyddion o ansawdd. Ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan, mae'r BBC, Sky News, ITN a chroniadau newyddion megis PA a Reuters oll yn darparu meincnodau allweddol o ansawdd newyddion diduedd a chywir yr hoffai'r Llywodraeth weld yn cael ei ddyblygu ar lefel y Cenhedloedd, lleol a rhanbarthol. Mae amcangyfrifon o gostau'r cyllid ychwanegol fyddai angen yn amrywio'n aruthrol. Yn eu harolwg statudol, mae Ofcom yn gosod y gost rhwng £65miliwn a £100miliwn y flwyddyn. Mae cost newyddion teledu'r BBC (a ariennir yn llwyr gan y cyhoedd) ar gyfer y Cenhedloedd a'r rhanbarthau Seisnig ar ben uchaf y raddfa hon, ac yn sylweddol uwch os fyddwn yn cynnwys darpariaeth newyddion radio ac ar-lein/amlgyfrwng. Mae'r rhain yn ddangosyddion

defnyddiol o'r ddadl ar bolisi cyhoeddus. Byddai prosiectau peilot yn helpu cywreinio'r ffigwr hwn. Ond i brosiectau peilot weithio, rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan fod â sicrwydd o'r cychwyn o beth fydd yn digwydd tu hwnt i'r cyfnod peilot i'w hannog i fentro buddsoddiad masnachol sylweddol.

16. Bydd yn bwysig dyrannu a rheoli contractau'r Consortia yn wrthrychol ac yn annibynnol o Lywodraeth, er mwyn gwarantu annibyniaeth olygyddol a sicrhau bod hyn yn amlwg. Bydd angen gwaith pellach ar y trefniadau llywodraethu angenrheidiol (allai gynnwys un sefydliad presennol neu fwy, neu gorff newydd), yn amodol i benderfyniadau terfynol ar gyllid ychwanegol.

Cwestiwn ymgynghori:

Ydych chi'n cytuno fod newyddion cynaliadwy, amhleidiol yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau yn debygol o fod angen rhyw fath o gyllid cyhoeddus ychwanegol?

Adran 2: Opsiynau cyllido – elfen neilltuedig o'r Drwydded Deledu

Ffynonellau posibl ar gyfer cyllid ychwanegol

17. Mae Ffi'r Drwydded Deledu yn fecanwaith cyllido sefydledig, eglur, ar raddfa fawr a gynlluniwyd i gefnogi'r ddarpariaeth o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n dreth ar gyfres benodol o ddyfeisiau - rhai sy'n gallu derbyn neu recordio cynnwys teledu. Mae ei debyg i'w weld yn eang ar sawl ffurf ledled marchnadoedd Ewropeaidd a thu hwnt. Y gynulleidfa sy'n prynu'r dyfeisiadau hyn yw ffynhonnell Ffi'r Drwydded Deledu. Mae eisoes wedi ei alinio'n agos i bwrpasau cyhoeddus craidd yn ei ddefnydd gan y BBC parthed gwerth am arian, cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil; a chynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei Genhedloedd, rhanbarthau a chymunedau[3]. Mae'r Llywodraeth yn credu os oes angen cyllid cyhoeddus ychwanegol i sicrhau newyddion yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau, yna gellid rhannu refeniw Ffi'r Drwydded Deledu i'r perwyl hwn.

18. Nid yw Ffi'r Drwydded Deledu yn ffi trwydded y "BBC". Nid oes gan y BBC hawl unigryw i Ffi'r Drwydded Deledu mewn egwyddor. Mae hyn yn fater o arfer hanesyddol. Fe delir y dreth ddyfais hon i'r Gronfa Gyfunol fel unrhyw dreth arall, er mwyn i lywodraeth y dydd benderfynu sut ddylid ei defnyddio. Ers y 1960au, mae llywodraethau olynol wedi penderfynu dyrannu 100% o refeniw Ffi'r Drwydded Deledu i'r BBC, tra'n cadw'r hawl i ddyrannu llai na 100%. Adlewyrchir y ffaith hon yn y Cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r BBC a gyhoeddwyd ynghyd â phob Siarter BBC. Mae Ffi'r Drwydded Deledu eisoes wedi ei defnyddio i gefnogi amcanion polisi darlledu tu hwnt i wasanaethau craidd y BBC. Er enghraifft, neilltuwyd tua 3.5% o refeniw Ffi'r Drwydded Deledu yng nghytundeb presennol Ffi'r Drwydded Deledu i dalu cost y Cynllun Cymorth Newid i'r Digidol a chostau marchnata a chyfathrebu Digital UK.

19. Dyma pan fod y Llywodraeth, yn y Papur Gwyn Prydain Ddigidol, wedi cyflwyno'r syniad o "elfen neilltuedig gynhwysol" yn Ffi'r Drwydded Deledu o ddechrau cyfnod y cytundeb Ffi'r Drwydded Deledu nesaf yn 2013. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cyfateb yn gyffredinol i'r 3.5% sydd wedi ei neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer Newid i'r Digidol, ond byddai'n annibynnol o lefel gyflawn Ffi'r Drwydded Deledu.

20. Byddai'r elfen hon yn cael ei defnyddio'n bennaf i ychwanegu at ddarparwyr newyddion annibynnol ac amgen (y Consortia). Fodd bynnag, gellid ei defnyddio hefyd i gynnal blaenoriaethau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus hanfodol eraill (e.e. darpariaeth cynnwys gwreiddiol lluosog ar gyfer plant) os byddai darpariaeth annibynnol newyddion y Cenhedloedd, lleol a rhanbarthol angen llai na'r swm a neilltuwyd.

[3] Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, 2006, Cm 6925 Adran 4 (d)

21. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod hyn yn wyriad o arfer bresennol ble mae'r BBC wedi bod yn derbyn Ffi'r Drwydded Deledu'n gyflawn, ond rhaid iddo fod yn opsiwn allweddol yn absenoldeb datrysiadau eraill.

22. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y ddadl fod Ffi'r Drwydded Deledu wedi ei gysylltu ym meddyliau nifer gyda'r BBC yn unig, ac mai'r cysylltiad hwn yw'r rheswm canolog dros dderbyniad y cyhoedd o Ffi'r Drwydded Deledu. Felly mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall dehongliadau a barn pobl ar ddefnydd o Ffi'r Drwydded Deledu i sicrhau newyddion lluosog yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau ac o bosibl ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus hanfodol eraill. Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyflawni ymchwil benodol i farn cynulleidfaoedd ar gyfer y perwyl hwnnw, ac yn ymgysylltu'n benodol â'r rhai sy'n eu cynrychioli. Byddwn hefyd yn benodol yn ceisio barn y sefydliadau a ymddiriedir gyda chyfrifoldebau arbennig parthed darpariaeth cynnwys gwasanaeth cyhoeddus lluosog: Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom.

23. Yn amodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn cynnig y dylai'r cyllid cyhoeddus angenrheidiol ar gyfer y cyfnod peilot ddod o'r tanwariant disgwyliedig o gronfeydd a neilltuwyd yn y cytundeb Ffi'r Drwydded Deledu bresennol i dalu costau'r Cynllun Cymorth Newid i'r Digidol. Byddwn yn trafod gydag Ymddiriedolaeth y BBC sut i gyflawni hyn.

24. Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, mae'r Llywodraeth yn agored i gynigion amgen fyddai i'r un raddfa yn cyflawni ei amcanion o gynnal BBC cryf ac annibynnol a ariennir gan Ffi'r Drwydded Deledu; a darparu digon o gyllid amgen cynaliadwy i gefnogi cynnwys gwasanaeth cyhoeddus o ffynonellau eraill heblaw'r BBC, yn bennaf mewn newyddion ar gyfer y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau.

Cwestiynau ymgynghori:

Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio Ffi'r Drwydded deledu i gefnogi newyddion diduedd yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau'r BBC?

Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw gyllid o fewn elfen neilltuedig gynhwysol o ffi'r drwydded deledu nad yw'n angenrheidiol ar gyfer newyddion diduedd fod ar gael i ariannu ffurfiau eraill o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, neu a ddylid cyfyngu cyllid o'r fath i newyddion?

A oes mecanweithiau cyllido amgen y credwch allai gyflawni'r amcanion uchod yn fwy effeithiol?

Diogelu cyllid y BBC

25. Er mwyn sicrhau diogelwch ac annibyniaeth y BBC, argymhellodd Bapur Gwyn Prydain Ddigidol y dylid addasu Cytundeb y BBC i sefydlu canran isafswm o incwm Ffi'r Drwydded Deledu y gellid ei neilltuo fel elfen gynwysedig. Mae'r Llywodraeth yn agored i drafod opsiynau eraill ar gyfer neilltuo gydag Ymddiriedolaeth y BBC.

26. Bydd yn bwysig sicrhau y sefydlir trefniadau llywodraethu addas i sicrhau craffu priodol ar unrhyw gronfa neilltuedig. Rhaid i unrhyw wariant o Ffi'r Drwydded Deledu, p'un a yw gan y BBC neu drydedd blaid, fodloni safonau tryloywder uchel, fod yn atebol i'r cyhoedd ac er lles y cyhoedd. Mae Siarter Frenhinol y BBC eisoes yn cynnwys cyfres o Bwrpasau Cyhoeddus sy'n llywodraethu defnydd y BBC o Ffi'r Drwydded Deledu. Sef:

- *cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil;*
- *hyrwyddo addysg a dysgu;*
- *symbylu creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol;*
- *cynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei genhedloedd, rhanbarthau a chymunedau;*
- *dod â'r Deyrnas Unedig i'r byd a'r byd i'r Deyrnas Unedig;*
- *wrth hyrwyddo ei bwrpasau eraill, helpu darparu manteision technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd ac, yn ogystal, arwain yn y newid i deledu digidol.*

Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid cynnwys y defnydd o unrhyw elfen neilltuedig gynhwysol yn y pwrpasau hyn hefyd. Byddai'r Llywodraeth yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom i sicrhau bod y model llywodraethu ar gyfer y Consortia ac unrhyw wariant neilltuedig ehangach yn cyflawni'r gwarantau hyn er mwyn parhau i ddiogelu buddiannau'r unigolion sy'n talu Ffi'r Drwydded Deledu.

Cwestiynau ymgynghori:

Ydych chi'n cytuno gyda'r argymhelliad i osod canran uchafswm o refeniw Ffi'r Drwydded Deledu y gellid ei neilltuo fel elfen neilltuedig gynhwysol?

Ydych chi'n cytuno y gallai addasu Cytundeb y BBC ddarparu'r amddiffyniad priodol i gyllid ac annibyniaeth y BBC yn y dyfodol?

Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu'r defnydd o unrhyw elfen neilltuedig gynhwysol o fewn Ffi'r Drwydded Deledu i'r pwrpasau cyhoeddus a gyflwynir yn Siarter y BBC?

Adran 3: Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac egwyddorion yr ymgynghoriad

27. Pwrpas yr ymarfer ymgynghori hwn, a gynhelir am 12 wythnos tan 22 Medi 2009, yw cael y detholiad ehangaf posibl o farnau gan y cyhoedd a diwydiannau'r cyfryngau ar y materion mae'r ymgynghoriad yn drafod.

28. Bydd hyn yn hysbysu barn a phenderfyniadau'r Llywodraeth ar ariannu lluosogrwydd o newyddion lleol, rhanbarthol ac yn y Cenhedloedd.

29. Gellir derbyn copi caled o'r ddogfen ymgynghorol hon ar gais ac ar-lein (gweler isod). Mae hefyd ar gael yn Saesneg.

30. Dylid anfon cyflwyniadau erbyn 22 Medi 2009 (fan bellaf) at:

Maria Schlee
Tîm Cyfryngau,
Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon,
5th Floor,
2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH

Neu trwy anfon e-bost at CCEConsultation@culture.gsi.gov.uk

31. Gellir hefyd cwblhau ymatebion i'r cwestiynau a gyflwynir yn y ddogfen hon ar-lein yn http://www.bis.gov.uk/digitalbritainconsultation.

32. Gallwn hefyd ddarparu dogfennau i fodloni gofynion penodol pobl ag anabledd. Os ydych angen cymorth, anfonwch e-bost at Maria.Schlee@culture.gsi.gov.uk

33. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi ei lywio gan God Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori sydd ar gael o: http://www.berr.gov.uk/files/file47158.pdf

34. Gofynnir i ymatebwyr nodi y gallai'r holl wybodaeth a roddir mewn ymateb, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i'w gyhoeddi neu ddatgelu dan Ddeddf

Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni ellir rhoi gwarant o gyfrinachedd i unrhyw ymatebwr, a dim ond dan ddeddfwriaeth briodol fydd hyn yn bosibl.

35. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion wedi'r dyddiad cau.

36. Hoffem hefyd dynnu sylw ymatebwyr at wefan Prydain Ddigidol ble gellir dod o hyd i ddeunydd cefndir pellach

http://www.culture.gov.uk/what_we_do/broadcasting/5631.aspx

Atodiad A: Rhestr o gwestiynau ymgynghori

1. ***Ydych chi'n cytuno y dylai sicrhau ffynonellau lluosog o newyddion diduedd ar gyfer y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau fod yn flaenoriaeth allweddol?***

2. ***Ydych chi'n cytuno fod newyddion cynaliadwy, amhleidiol yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau yn debygol o fod angen rhyw fath o gyllid cyhoeddus ychwanegol?***

3. ***Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio Ffi'r Drwydded deledu i gefnogi newyddion diduedd yn y Cenhedloedd, yn lleol ac yn y rhanbarthau yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau'r BBC?***

4. ***Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw gyllid o fewn elfen neilltuedig gynhwysol o ffi'r drwydded deledu nad yw'n angenrheidiol ar gyfer newyddion diduedd fod ar gael i ariannu ffurfiau eraill o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, neu a ddylid cyfyngu cyllid o'r fath i newyddion?***

5. ***A oes mecanweithiau cyllido amgen y credwch allai gyflawni'r amcanion uchod yn fwy effeithiol?***

6. ***Ydych chi'n cytuno gyda'r argymhelliad i osod canran uchafswm o refeniw Ffi'r Drwydded Deledu y gellid ei neilltuo fel elfen neilltuedig gynhwysol?***

7. ***Ydych chi'n cytuno y gallai addasu Cytundeb y BBC ddarparu'r amddiffyniad priodol i gyllid ac annibyniaeth y BBC yn y dyfodol?***

8. ***Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu'r defnydd o unrhyw elfen neilltuedig gynhwysol o fewn Ffi'r Drwydded Deledu i'r pwrpasau cyhoeddus a gyflwynir yn Siarter y BBC?***



department for
**culture, media
and sport**

2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk